cbac wjec

**TGAU**

**3010N20-1**

**DYDD IAU, 15 MEHEFIN 2023 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 2: Y Nofel

## HAEN SYLFAENOL

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**Defnyddiwch yr indecs ar dudalen 4 i ddod o hyd i'r cwestiynau ar y nofel y buoch chi'n ei hastudio.**

**Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.**

**(Trowch y dudalen)**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan. Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**(Trowch y dudalen)**

| NOFELAU | TUDALEN |
|---|---|
| LLINYN TRÔNS (Bethan Gwanas) | 5 |
| BACHGEN YN Y MÔR (Morris Gleitzman Addasiad Elin Meek) | 13 |
| DIFFODD Y SÊR (Haf Llewelyn) | 21 |
| AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones) | 29 |
| I BLE’R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn) | 38 |
| LLYFR GLAS NEBO (Manon Steffan Ros) | 46 |

(Trowch y dudalen)

# LLINYN TRÔNS – BETHAN GWANAS

1. **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
   **(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**1.1** **Darllenwch y darn a gymerwyd o LLINYN TRÔNS ar dudalen 9–12. Beth sydd wedi digwydd i Llion cyn yr olygfa hon?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3 marc]**

**1.2** **Pam nad oedd GWENAN yn mwynhau'r cwrs preswyl?**
**Nodwch DRI rheswm. [3 marc]**

(Trowch y dudalen)

**1.3 Ysgrifennwch hanes y criw yn cerdded i fyny'r mynydd ar ddechrau'r nofel.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10 marc]**

**1.4 Pa gymeriad yw'r DEWRAF yn y nofel?**
**Rhowch resymau, gan gyfeirio at DDIGWYDDIADAU PENODOL i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau.**
**Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalen 9–12. [6 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**1.5** **Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o Llinyn Trôns ar dudalen 9–12.**

**a)** **Edrychwch ar arddull llinell 8 yn y darn.**

**“Sbia coesau dryw!”**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**b)** **Edrychwch ar arddull llinellau 31–33 yn y darn.**

**Edrychodd Gags ar y staen gwlyb a dechrau rhowlio chwerthin, chwerthin nes roedd y dagrau’n powlio.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(Trowch y dudalen)**

1.5 c)

Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Enwch y nodwedd.
- Dyfynnwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]

1.6 Dychmygwch mai chi yw NOBI. Ysgrifennwch YMSON NOBI ar ôl y gweithgaredd dringo. Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i deimladau. Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.

[10 marc]

[40 MARC]

(Trowch y dudalen)

Sefyll yno mewn crys-T yn chwilio am liain ro’n i pan agorodd y drws. Safai Nobi a Gags yno yn wên o glust i glust. Roedd gwefus ucha Nobi wedi cyrlio fel Swis Rôl, rhyw wên hyll, gas, fel Frankenstein yn dysgu gwenu am y tro cynta.

“Sbia coesau dryw!” meddai. “Ti’m yn bwyta digon ’sti!”

“Os oes ’na rywun yn y lle ’ma angen brecwast ’de?” chwarddodd Gags. “Ty’d ’laen, Trôns! Mae pawb arall bron â gorffen. Be sy’n dy gadw di?” Roedd ’na wên slei ar ei wyneb yntau hefyd. Doedd o ddim yn ei siwtio fo.

Camodd Nobi at fy ngwely i a dechrau sniffian fel ci. “Oes ’na oglau od ’ma d’wad, Gags?”

“Wel, erbyn i ti sôn ... oes. O ble mae o’n dod sgwn i?”

Sbiodd y ddau ar ei gilydd, a dechreuodd y ddau sniffian o

(Trowch y dudalen)

gwmpas y cwrlid. Ro’n i isio hel y ddau allan, ond allwn i ddim symud. Roedd fy nhraed i mewn concrit. Yna tynnodd Nobi’r cwrlid yn ôl a dechrau chwerthin yn uchel.

“Wel, wel, sbia Gags! Dw i’n meddwl bod Llinyn Trôns wedi cael damwain fach!”

Edrychodd Gags ar y staen gwlyb a dechrau rhowlio chwerthin, chwerthin nes roedd y dagrau’n powlio.

“O’n i’n meddwl mai dim ond babis oedd yn gwlychu’u gwelyau! O ia! Ella ’mod i’n iawn hefyd!”

Daeth Alun a Jason i mewn ar hyn, a sbio’n hurt ar Nobi a Gags, yna arna i. Doedden nhw ddim yn hir yn cael y stori, a dyma nhw’n rhedeg allan fel dau HYENA i ddeud wrth bawb.

Trodd Nobi at Gags. “Cawod arall iddo fo dw i’n meddwl?”

(Trowch y dudalen)

“Beryg. ’Dan ni’m isio rhyw ddiawl bach drewllyd yn ein tîm ni, nac ydan?”

O na. Roedd hi reit amlwg be oedd ganddyn nhw mewn golwg. Ond fel roeddan nhw’n camu tuag ata i, dyma’r drws yn agor a Dei yn dod i mewn.

“Be ’dach chi’n ’neud fan hyn?” holodd.

“Mynd i roi sgwriad iawn i hwn,” atebodd Nobi. “Mi ddylat ti’n helpu ni – ac yntau wedi piso drostat ti neithiwr! Sbia!” Dangosodd y staen iddo fo a giglan mwy fyth.

Edrychodd Dei ar y staen am dipyn, yna arnyn nhw a holi’n hollol cŵl, “Sut roeddach chi’n gwbod mai fi oedd yn cysgu oddi tano fo?”

Edrychodd y ddau ar ei gilydd am eiliad. Dyna pryd y dechreuais innau

(Trowch y dudalen)

amau bod ’na rwbath yn od iawn am hyn i gyd. Mi ’nath Nobi ddechrau paldaruo rhwbath am fatras yn cyffwrdd y llawr, ond roedd Dei yn briliant.

“Ro’n i’n amau bod ’na rywun wedi dod i mewn yma ganol nos. A finnau wedi meddwl mai breuddwydio o’n i, ond dw i’n cofio rŵan. Dau foi â llond jwg o ddŵr ... chi oeddan nhw yn de?”

Roedd Gags yn edrych yn annifyr, ond mae Nobi wastad wedi bod yn rêl un am ddod allan o dwll. Mi ddechreuodd chwerthin yn uchel.

“Ni? Paid â bod yn sofft!”

Ond roedd Gags wedi bod yn sbio arna i yn edrych mor pathetic wrth y ffenest heb fy nhrôns.

“Ocê, digon teg,” meddai Gags, heb allu sbio’n iawn i’n llygaid i. “Jôc oedd o, Llion.”

Jôc? Swn i ’di gallu’i flingo fo.

(Trowch y dudalen)

# BACHGEN YN Y MÔR – MORRIS GLEITZMAN (ADDASIAD ELIN MEEK)

**2.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**2.1** **Darllenwch y darn a gymerwyd o *Bachgen yn y Môr* ar dudalen 17–20.**
**Pam mae Bibi a Jamal yn y dŵr? Nodwch DAIR ffaith i esbonio beth sydd wedi digwydd yn union cyn yr olygfa hon. [3 marc]**

**2.2** **Nodwch DRI pheth mae RASHIDA yn ei wneud i helpu Jamal a Bibi ar y cwch. [3 marc]**

(Trowch y dudalen)

**2.3** **Ysgrifennwch hanes Jamal yn cwrdd ag Omar a mynd ar goll yn y gwersyll.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10 marc]**

**2.4** **Pa gymeriad yw'r DEWRAF yn y nofel?**
**Rhowch resymau, gan gyfeirio at DDIGWYDDIADAU PENODOL i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau.**
**Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalen 17–20.** **[6 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**2.5 Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o BACHGEN YN Y MÔR ar dudalen 17–20.**

**a) Edrychwch ar arddull llinell 6 yn y darn.**

**Mae'r dŵr yn bwrw'r anadl o'm corff.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**b) Edrychwch ar arddull llinellau 7 ac 8 yn y darn.**

**...dw i o dan y dŵr, yn gwneud fy ngorau glas i'w gweld hi.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

(Trowch y dudalen)

2.5 c)

Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Enwch y nodwedd.
- Dyfynnwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]

2.6 Dychmygwch mai chi yw BIBI. Ysgrifennwch YMSON BIBI ar ôl iddi gyrraedd y ddinas yn y tacsi, cyn mynd i'r stadiwm bêl-droed. Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i theimladau. Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.

[10 marc]

[40 MARC]

(Trowch y dudalen)

‘Na,’ sgrechiaf.

Dw i’n syllu i lawr ar y dŵr sy’n corddi oddi tanom. Mae Bibi wedi diflannu’n barod. Dw i’n fy llusgo fy hun i’r ffens ac yn neidio.

Mae’r dŵr yn bwrw’r anadl o’m corff.

Wedyn dw i o dan y dŵr, yn gwneud fy ngorau glas i’w gweld hi.

Mae swigod yn hofran o’m cwmpas ym mhelydrau gwyrdd ac aur yr haul a chysgodion llwydwyrdd y cwch a’r sêr gwyrdd a phinc o’r ergyd ges i ar fy mhen.

Dw i’n ceisio cicio fy nghoesau a symud fy mreichiau ond mae’r dŵr yn teimlo’n drymach na thywod a dw i’n suddo.

Edrych am Bibi, dw i’n gweiddi’n dawel ar fy hunan.

Siapiau ym mhobman. Ond dim Bibi. Dim ond cysgodion.

Suddo.

(Trowch y dudalen)

Suddo.

Wyneb. Yn agos ata i. Hi yw hi. Ei llygaid yn fawr, a’i bochau’n llawn. Dw i’n lapio fy mreichiau amdani ac yn ceisio cicio. I gael codi’r ddau ohonom.

Dw i’n dda i ddim. Dw i’n methu cicio digon.

Cicia, Bibi. Rho gic enfawr i’r dŵr.

Dw i’n methu ei dal hi. Mae fy mreichiau’n gwrthod cydio ynddi. Mae hi’n cydio ynof i. Mae fy mrest yn boenus. Rhaid i mi anadlu. Bibi, dal dy afael. Dw i’n gallu gweld Awstralia.

Aw.

Mae rhywbeth yn pwnio fy nghefn.

Mae rhywbeth yn ein tynnu i’r wyneb.

Na, peidiwch. Mae golau’r haul yn rhy lachar. Mae’r awyr yn rhy oer. Mae’r metel garw dw i’n llithro drosto’n brifo fy mhennau gliniau.

(Trowch y dudalen)

Dw i’n gallu anadlu, ond dw i’n methu gweld Awstralia nawr.

Dw i’n gorwedd ar ddec y cwch. Dw i’n gryndod i gyd. Does dim teimlad yn fy ngwefusau ond maen nhw’n hallt. Mae fy mhennau gliniau’n boenus.

Ble mae Bibi?

Dw i’n curo’r dŵr o’m llygaid ac yn edrych o’m cwmpas yn wyllt.

Dyna hi, wrth fy ochr ar y dec. Yn peswch. Yn anadlu’n ddwfn. Yn rhegi ar y morwr yn yr oferôls melyn wrth iddo dynnu’i fachyn o’i dillad.

Mae’n rhoi gwên i mi. Dw i’n chwydu heli dros ei esgidiau. Mae’n rhoi gwên fwy eto.

Dw i’n cydio yn Bibi ac yn ei dal fel na all neb fynd â hi eto. Wedyn dw i’n cau fy llygaid. Dw i’n eu cau nhw am amser maith.

Dw i eisiau mynd nôl i Awstralia.

(Trowch y dudalen)

Dw i newydd weld y lle. Meysydd pêl-droed gwyrdd a physt o aur pur a stolion bychain i gôl-geidwaid ag un goes gael eistedd arnyn nhw. Fi a Bibi’n ennill y cwpan i Dubbo Abattoirs United. Roeddwn i yno.

Nawr dw i fan hyn ar y dec, yn crynu. Dw i’n rhoi cwtsh i Bibi i’w chynhesu.

(Trowch y dudalen)

# DIFFODD Y SÊR – HAF LLEWELYN

**3.** **Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**3.1** **Darllenwch y darn a gymerwyd o DIFFODD Y SÊR ar dudalen 25–28.**
**Pam mae Anni yn hapus cyn yr olygfa hon?**
**Nodwch DAIR ffaith. [3 marc]**

**3.2** **Nodwch DRI pheth mae WIL FFURAT yn ei wneud i wylltio Anni a Lora.**
**[3 marc]**

(Trowch y dudalen)

**3.3** **Ysgrifennwch hanes Anni a Lora yn cyfarfod Hywel ac yn ei weld am yr ail dro yn y Band of Hope. Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10 marc]**

**3.4** **Pa gymeriad yw'r DEWRAF yn y nofel?**
**Rhowch resymau, gan gyfeirio at DDIGWYDDIADAU PENODOL i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau.**
**Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalen 25–28. [6 marc]**

(Trowch y dudalen)

3.5 Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o DIFFODD Y SÊR ar dudalen 25–28.

a) Edrychwch ar arddull llinellau 47 a 48 yn y darn.
"Ti'n gwybod y bydd Lora wrth ei bodd yn dy weld,..."
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]

b) Edrychwch ar arddull llinellau 84 ac 85 yn y darn.
Yno, o fy mlaen, gwyliais fy nhad yn troi yn hen, hen ŵr.
Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]

(Trowch y dudalen)

3.5 c)

Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.

- Enwch y nodwedd.
- Dyfynnwch y nodwedd.
- Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]

3.6 Dychmygwch mai chi yw ELLIS. Ysgrifennwch ymson ELLIS ar ôl gadael yr Ysgwrn i fynd i Litherland. Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i deimladau. Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.

[10 marc]

[40 MARC]

(Trowch y dudalen)

"Mam, Mam!" galwodd Maggie. "Tyrd i mewn, Jini ..." meddai, gan arwain Jini at y bwrdd.

"Edrychwch!" meddai Maggie a gwthio'r dalennau i llaw fy Mam. Chwarddodd Jini a thaflu ei phen yn ôl, yn union fel y gwelais hi'n gwneud y diwrnod hwnnw yn yr haul, a hithau fraich ym mraich efo Ellis.

"Be ydi o?" gofynnais, a rhuthro i gael cip dros ysgwydd Mam.

Llythyr gan Ellis oedd ganddi, wedi'i yrru o'r ffosydd. Yno, roedd ysgrifen Ellis, a cherdd i ddymuno pen-blwydd hapus i Jini Owen, ei gariad.

"Darllenwch y gerdd i ni, Mam," meddai Maggie gan chwerthin. Edrychodd Mam yn swil ar Jini.

"Na, chwarae teg i Jini, ei cherdd hi yw hi," meddai, a gwelais yr edrychiad yna rhwng Mam a hithau, fel petai Mam yn dweud: dyna ti, dy eiddo di

(Trowch y dudalen)

ydi Ellis rŵan. Edrych ar ei ôl o i mi. Ddof i ddim rhyngoch chi.

Ond roeddwn i wedi cael cip arni dros ysgwydd Mam ac mi fedraf gofio un pennill yn iawn:

A phan êl y rhyfel heibio
Gyda'i gofid maith a'i chri,
Tua'r Ceunant Sych dof eto
Ar fy hynt i'ch ceisio chwi ...

Yna cofiais am y bwcedi dŵr gwag, a gadewais y gegin lle roedd pawb yn chwerthin a siarad trwy'i gilydd am y wyrth o ddod o hyd i Gruff Wmffra; am Ellis a'i gyfarchion pen-blwydd i'w gariad. Ond doedd neb, neb ond fi, wedi sylwi ar y dyddiad ar y llythyr, neu ella nad oedden nhw eisiau sylwi. Roedd y llythyr wedi'i ysgrifennu cyn diwedd Gorffennaf – cyn y frwydr fawr.

(Trowch y dudalen)

Wrthi'n stryffaglio efo'r bwcedi roeddwn i pan ddaeth Dodo Citi a Jini allan i ben y drws, ar eu ffordd yn ôl am y pentra.

"Brysia i lawr acw, Anni. Ti'n gwybod y bydd Lora wrth ei bodd yn dy weld, ac mi fydd hi'n llawn o hanes, dwi'n siŵr."

Gwyliais y ddwy'n brasgamu i lawr y ffordd o'r Ysgwrn. Gwenais. Roedd rhyw ysgafnder yn eu symudiadau nhw heddiw.

Trois yn fy ôl i godi'r bwcedi. Roedd Enid yn y drws, a gelwais arni i ddod i fy helpu ond doedd hi ddim yn edrych i 'nghyfeiriad i. Roedd hi'n syllu ar y ffordd o'i blaen. Yna, gwelais hi'n troi'n wyllt cyn rhuthro yn ei hôl i mewn i dywyllwch y tŷ. Rhoddais y bwcedi i lawr er mwyn i mi gael mynd at y glwyd i weld beth oedd wedi peri iddi ruthro yn ei hôl i'r tŷ fel yna. Fedrwn i

(Trowch y dudalen)

weld neb na dim, ond uwch fy mhen gallwn glywed sŵn cwyno dau hen fwncath. Gwyliais y ddau aderyn yn cylchu, rownd a rownd, yn nesáu at eu hysglyfaeth. Dechreuais grynu yno yng nghanol gwres mis Awst wrth i gysgod eu hadenydd anferth ddod rhyngof i a’r haul.

Dyna pryd y gwelais i’r negesydd. Gwyliais fy nhad yn cerdded i’w gwfwr, yn ei gyfarch â gwên dawel. Gwyliais ei wyneb yn newid wrth iddo estyn am yr amlen. Trodd y negesydd, ei ben yn isel, a gwyliais ei gamau’n pellhau oddi wrth y tŷ. Tŷ galar. Gwyliais Tada’n aros, yn pwyso ar y glwyd, yn agor yr amlen, yn darllen y geiriau. Gwyliais fy nhad yn crymu, yn gwyro, yn pwyso’n drwm ar ymyl y glwyd. Yno, o fy mlaen, gwyliais fy nhad yn troi yn hen, hen ŵr.

(Trowch y dudalen)

## AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – ALUN JONES

**4. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion.**
**(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**4.1 Darllenwch y darn a gymerwyd o Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr ar dudalen 33–37.**
**Pam mae Gladys yn ofnus?**
**Nodwch DAIR ffaith i esbonio beth sydd wedi digwydd cyn yr olygfa hon. [3 marc]**

(Trowch y dudalen)

**4.2** **Sut mae pobl pentref Hirfaen yn ymateb i MEREDYDD ar ôl iddo ddod allan o'r carchar? Nodwch ymateb DRI pherson iddo. [3 marc]**

**4.3** **Ysgrifennwch hanes dwyn y gemau a helynt y lladron.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10 marc]**

**4.4** **Pa gymeriad yw'r DEWRAF yn y nofel?**
**Rhowch resymau, gan gyfeirio at DDIGWYDDIADAU PENODOL i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau.**
**Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalen 33–37. [6 marc]**

(Trowch y dudalen)

**4.5** **Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o Ac Yna Clywodd Sŵn y Môr ar dudalen 33–37.**

**a)** **Edrychwch ar arddull llinell 68 yn y darn.**

**Cysgod oedd o. Cysgod yn symud.**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**b)** **Edrychwch ar arddull llinellau 86 ac 87 yn y darn.**

**Crynai ei gwefusau fel wyneb pwll o ddŵr...**

**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(Trowch y dudalen)**

**4.5 c)**

**Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Enwch y nodwedd.**
- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]**

**4.6 Dychmygwch mai chi yw MEREDYDD.**
**Ysgrifennwch YMSON MEREDYDD ar ôl i Huw Gwastad Hir ymosod arno. Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i deimladau. Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.**

**[10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Methai Gladys yn lân â chysgu. Yr oedd arni ofn, ofn mawr, oherwydd yr oedd y boen wedi dod yn ôl amser cinio.

Cawsai fis annymunol. Pan aethai'n wael y noson y daethai'r ferch ddieithr i'r drws nesaf, yr oedd wedi galw Doctor Griffith yn syth, ac yr oedd hwnnw wedi ei siarsio i gymryd pethau'n ara deg, a pheidio â chynhyrfu, symud yn gyflym, chwysu, na chodi pwysau ar unrhyw gyfrif yn y byd. Dychrynasai Gladys, ac er y noson honno gofalai wneud yn union fel y dywedasai'r meddyg, a chymryd ei thabledi'n union fel y'i cyfarwyddasid. Yn raddol, diflanasai'r boen, a daethai hithau i ddechrau teimlo'n well a mwy hyderus.

Ond yr oedd wedi newid. Yr oedd wedi colli diddordeb ym mhopeth bron, a phan wellhaodd ddigon i fynd

(Trowch y dudalen)

i’r pentref i negeseua ac i ailfynychu gwasanaethau’r Eglwys, nid oedd ganddi stremp i chwilio am feiau yn neb, na chael eu hanesion, ac nid âi i’r drafferth mwyach o felltithio hogyn Wil Parri a’i gampau; yr oedd pethau pwysicach mewn bywyd.

Ers ei gwaeledd, yr oedd yn gorfod ffonio Bet Gwastad Hir bob bore i riportio. Gan mai Bet oedd ei pherthynas agosaf, heblaw am ei chyfnither hanner musgrell yn Uwch y Traeth, yr oedd cysylltu â hi yn feunyddiol yn un o’r amodau ei bod yn cael aros gartref, ac yr oedd cael aros gartref yn bwysig iawn i Gladys; nid oedd eisiau mynd yn rhy ddibynnol ar neb, yn enwedig wrth nad oedd ganddi blant i edrych ar ei hôl. Petai’n mynd i fethu, byddai’n wahanol wrth gwrs. Ond peth arall oedd hynny.

Daliodd ei hanadl wrth i bigiad arall

(Trowch y dudalen)

ddod i'w bron, a gorffwysodd ei phen yn ôl ar y gobennydd, a gadael ei cheg yn agored. Byddai'n rhaid iddi alw'r doctor ben bore fory, rhag ofn.

Cododd i edrych a fyddai'n well. Pwysodd ei llaw ar y pared a cherddodd yn araf at y ffenest. Yr oedd hanner lleuad i'w weld drwy'r llenni, a symudodd Gladys fymryn arnynt iddi gael ei weld yn well. Hanner lleuad oedd yna'r noson y priododd Wil a hi.

Gollyngodd y llenni'n eu holau ac aeth i ben y grisiau. Yr oedd am fynd i lawr i wneud paned a chael tabled arall. Dim ond iddi gymryd pwyll, fe fyddai'n iawn. Fe beidiai â mynd i'r Eglwys yn y bore er mwyn rhoi cyfle iddi hi ei hun orffwys. Edrychodd drwy'r ffenest ben grisiau, a theimlodd ei hun yn gwegian. Gafaelodd yn dynn yn sil y ffenest. Ni fedrai wneud dim,

(Trowch y dudalen)

ond edrych.

Cysgod oedd o. Cysgod yn symud. Cysgod dyn yn symud gyda thalcen y tŷ tua'r cefn. Gwyliodd Gladys ef yn symud yn araf, a'i llygaid a'i cheg yn agor mwy a mwy. Ni fedrai roi sgrech. Yna daeth siâp y dyn i'r golwg a throes ei ben. Yr oedd y dyn wedi troi ei ben i edrych ar gefn ei thŷ hi. O Dduw annwyl.

Symudodd y dyn tua chefn y tŷ, ac aeth i gysgod y tŷ ei hun. Yr oedd bron yn amhosib ei weld yn awr, ond gwyddai Gladys ei fod yno. Yno'n prowla. Yr oedd dyn yn prowla o gwmpas ei thŷ hi a hithau'n gefn nos. Yr oedd y dyn am dorri i mewn i'r tŷ ac am ei lladd a dwyn ei phethau.

Aeth i lawr y grisiau'n simsan, gan afael yn y canllaw â'i dwy law. Crynai ei gwefusau fel wyneb pwll o ddŵr ar wynt. Yr oedd arni ofn i'r dyn ei

(Trowch y dudalen)

chlywed yn crynu, neu glywed ei hanadl gythryblus. Yr oedd yn rhaid iddi ffonio. Ffonio’r plismyn. Ffonio am help. Ond ni feiddiai roi golau. Beth petai’r dyn yn ei chlywed yn codi’r ffôn, ac yn rhuthro i’r tŷ a’i lladd cyn iddi gael drwodd?

Yr oedd arni eisiau eistedd. Eistedd i lawr i ystyried. Aeth i’r gegin ffrynt, ac eisteddodd yn ei chadair. Diolch i Dduw bod y llenni wedi eu cau a bod y lle bron yn hollol dywyll.

Po hwyaf yr eisteddai, mwyaf oedd y cryndod a’r ofn. Ni thalai hyn ddim. Penderfynodd godi i fynd i ffonio ac yr oedd y boen a’i trawodd yn ei bron yn union fel petai’r dyn cryfaf yn y byd wedi ei chicio â’i holl nerth.

(Trowch y dudalen)

# I BLE'R AETH HAUL Y BORE? – EIRUG WYN

**5. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**5.1 Darllenwch y darn a gymerwyd o I BLE'R AETH HAUL Y BORE? ar dudalen 42–45. Pam mae Haul y Bore yn ofnus? Nodwch DAIR ffaith i esbonio beth sydd wedi digwydd yn union cyn yr olygfa hon. [3 marc]**

**5.2 Sut mae cymeriad MANUELITO yn bwysig i'r nofel? Nodwch DAIR ffaith. [3 marc]**

(Trowch y dudalen)

5.3 Ysgrifennwch hanes pam y gwnaeth y Cadfridog Carleton garcharu Kit Carson.
Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.
Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.
[10 marc]

5.4 Pa gymeriad yw'r DEWRAF yn y nofel?
Rhowch resymau, gan gyfeirio at DDIGWYDDIADAU PENODOL i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau.
Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalen 42–45. [6 marc]

(Trowch y dudalen)

**5.5 Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o I BLE'R AETH HAUL Y BORE? ar dudalen 42–45.**

**a) Edrychwch ar arddull llinell 4 yn y darn.**
**"Na!" llefodd. "Na! Na! Na!"**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**b) Edrychwch ar arddull llinellau 21–23 yn y darn.**
**"Manuelito!" A syrthiodd fel cadach ar fynwes ei thad.**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

(Trowch y dudalen)

**5.5 c)**

**Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Enwch y nodwedd.**
- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]**

**5.6 Dychmygwch mai chi yw QUANAH. Ysgrifennwch YMSON QUANAH ar ddiwedd y daith hir i Bosque Redondo.**
**Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i theimladau.**
**Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.**

**[10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

Pan welodd Haul y Bore'r esgidiau lledr, anobeithiodd yn llwyr a gwthiodd ei phen i'r ddaear.

"Na!" llefodd. "Na! Na! Na!"

"Haul y Bore?"

Roedd breichiau yn estyn amdani. Y llais yna! Roedd hi'n adnabod y llais. Roedd hi wedi clywed y llais o'r blaen. Gannoedd o weithiau o'r blaen. Yn ceryddu, yn canmol, yn cymell ac yn cydymdeimlo. Agorodd ei llygaid a chodi'i phen. Roedd rhywun yn penlinio wrth ei hymyl. Roedd pâr o ddwylo cryfion wedi gafael ynddi ac yn ei chodi fel baban. Llanwodd ei llygaid.

"Haul y Bore?" meddai'r llais drachefn.

Yna, agorodd y llifddorau a dechreuodd Haul y Bore wylo. "Manuelito!" llefodd. "Manuelito!" A syrthiodd fel cadach ar fynwes ei

(Trowch y dudalen)

thad. Agorodd ei cheg, ond fedrai hi ddweud dim. Ceisiodd drachefn, ond doedd dim geiriau'n dod allan. Fedrai hi wneud dim ond nadu ac wylo'i rhyddhad.

Amneidiodd Manuelito ar Herrero Grande. Rhoddodd Haul y Bore yn ei ofal cyn neidio ar ei geffyl.

"Estyn hi yma, Herrero! Mi awn ni dan y coed i orffwyso am ychydig iddi gael dod ati hi'i hun."

Cymerodd ei ferch yn ei gôl fel baban, a chymhellodd ei geffyl tua'r coed ar lan yr afon. Doedd o ddim yn siŵr a oedd Haul y Bore wedi cael niwed ai peidio. Roedd olion gwaed ffres ar hyd ei choesau a'i breichiau.

Pwy bynnag oedd Haul y Bore yn ffoi rhagddo, gwell fyddai iddynt symud i ddiogelwch y coed rhag ofn bod y perygl yn agos.

Wedi cyrraedd glan yr afon, taenodd

(Trowch y dudalen)

Manuelito groen byffalo ar y llawr a rhoddodd Haul y Bore i orwedd arno. Roedd hi'n dal i fudr-wylo, ond roedd y gwaethaf drosodd. Estynnodd y flanced oddi ar gefn ei geffyl ac wedi ei rhoi drosti aeth â chostrel i'r afon i nôl dŵr glân.

Pan ddychwelodd roedd Haul y Bore yn eistedd ar y croen gyda'r flanced yn dynn amdani. Roedd hi'n crynu fel ebol newydd-anedig. Estynnodd lymaid iddi, a llyncodd hithau'n awchus. Tywalltodd Manuelito ddŵr ar gadach ac estynnodd ei law i dynnu'r flanced oddi ar ysgwyddau Haul y Bore. Am eiliad gwasgodd hithau'r flanced yn dynnach amdani hi'i hun. Agorodd y llygaid mewn ofn a dychryn. Daeth braich ei thad am ei hysgwyddau a'r cadach gwlyb at ei thalcen i ddechrau golchi'r pridd a'r baw a'r chwys.

(Trowch y dudalen)

"Mae'n olreit! Ti'n saff! Y fi, Manuelito, sydd yma."

Roedd y llais yn dyner a chysurlon. "Rhaid i mi weld a wyt ti wedi brifo."

Yn araf ildiodd hithau. Gollyngodd y flanced a gorweddodd yn ôl. Roedd ei thad yn dal i siarad â hi wrth olchi'i chorff.

"Oes rhywle'n brifo? Oes gen ti boen?"

Atebodd hi ddim, dim ond gorwedd yno'n llipa lonydd. Gallai Manuelito weld ei bod yn gleisiau byw. Golchodd ei gwddf, ei hysgwyddau a'i bronnau, a phan dynnodd ei sgert fe welodd gnawd llipa'i stumog a'r llanast oedd ar ei chluniau a brig ei choesau. Nid olion genedigaeth yn unig oedd yno.

" 'Merch annwyl i!" llefodd. "Fe gest blentyn? Fe gest hefyd ddolur!"

Yn araf, cododd hi yn ei freichiau a'i chario at yr afon.

(Trowch y dudalen)

# LLYFR GLAS NEBO – MANON STEFFAN ROS

**6. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan ddyfynnu'n bwrpasol a defnyddio enghreifftiau penodol o'r nofel i gefnogi eich atebion. (Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)**

**6.1 Darllenwch y darn a gymerwyd o LLYFR GLAS NEBO ar dudalen 50–54. Beth sy'n digwydd i Mr a Mrs Thorpe ar ôl yr olygfa hon? Nodwch DAIR ffaith amdanyn nhw. Peidiwch â chyfeirio at y wybodaeth yn yr olygfa ar dudalen 50–54.**

**[3 marc]**

(Trowch y dudalen)

**6.2** **Pa arwyddion sydd yna bod DIWEDD ar y Terfyn a bod pethau'n dychwelyd i'r hen ffordd o fyw? Nodwch DAIR ffaith. [3 marc]**

**6.3** **Ysgrifennwch hanes Rowenna yn mynd yn ôl lawr i'r pentref ar ddechrau'r Terfyn.**
**Esboniwch beth sy'n digwydd yn llawn.**
**Dylech ysgrifennu tua ½ tudalen.**
**[10 marc]**

**6.4** **Pa gymeriad yw'r DEWRAF yn y nofel?**
**Rhowch resymau, gan gyfeirio at DDIGWYDDIADAU PENODOL i gefnogi'ch barn a'ch sylwadau.**
**Peidiwch â chyfeirio at yr olygfa ar dudalen 50–54. [6 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

**6.5 Edrychwch eto ar y darn a gymerwyd o LLYFR GLAS NEBO ar dudalen 50–54.**

**a) Edrychwch ar arddull llinell 44 yn y darn.**
**Adar.**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**b) Edrychwch ar arddull llinellau 75–77 yn y darn.**
**Rhywbeth blin yn llenwi'r byd, rhywbeth yn sgrechian, rhywbeth yn marw.**
**Dywedwch pam mae hwn yn effeithiol. [2 farc]**

**(Trowch y dudalen)**

**6.5 c)**

**Chwiliwch am enghraifft arall o nodwedd arddull yn y darn.**

- **Enwch y nodwedd.**
- **Dyfynnwch y nodwedd.**
- **Dywedwch pam mae'r nodwedd yn effeithiol. [4 marc]**

**6.6 Dychmygwch mai chi yw ROWENNA. Ysgrifennwch YMSON ROWENNA ar ôl i Gwion ddechrau galw. Cofiwch sôn am ddigon o ddigwyddiadau a'i theimladau. Dylech ysgrifennu tua ¾ tudalen.**

**[10 marc]**

**[40 MARC]**

**(Trowch y dudalen)**

**Wnes i ddim deall yn syth. Dydi gwlithod ddim yn ymddangos mewn tywydd braf. Ond mi wnes i ddallt, ar ôl ychydig, wrth wylio'r gwlithod yn llonyddu a sychu, eu hymylon yn cyrlio, eu croen yn troi'n lledr.**

**Roedd y gwlithod wedi penderfynu marw.**

**Edrychais i fyny ar Susan, ac edrychodd hithau arnaf i. Roedd hi'n ddynes dlws yn y ffordd dawel, lonydd roedd hen ferched Saesneg crand yn gallu bod. Croes fach arian ar gadwyn o gwmpas ei gwddf, ei gwallt mewn pelen sidanaidd ar ei gwegil, dwylo hirion ac ewinedd byrion glân. Roedd ei gŵr yn ffeind ac yn siaradus, ond roedd hon – Susan Elizabeth Thorpe, a aned yn Thanet ym 1943, gwraig i David, mam i Jonathan a Peter, athrawes hanes, ysgrifenyddes y WI lleol – roedd hi'n glyfar. Yn deall mwy**

**(Trowch y dudalen)**

na phawb arall, yn ei llonyddwch tawel ei hun. A phan edrychodd Susan arna i'r prynhawn hwnnw, a chae o wlithod meirwon sych yn britho'r prydferthwch o gwmpas ein cartrefi, roeddwn i'n gwybod.

'We'd better go home,' meddwn yn sydyn, wrth frysio dros y lawnt gan smalio nad oedd y creaduriaid bychain yn byrstio dan fy ngwadnau. Cydiais yn llaw fach gynnes Siôn. 'See you later.'

Dim ond wedi cyrraedd giât ein gardd ni oeddan ni pan dynnodd Siôn ei law yn ôl, a galw, 'Mam!' Ac fe glywais y sŵn, yn dawel i ddechrau, yn siffrwd fel llais cariad yng nghanol y nos. Yna'n uwch, ac yn uwch, fel ffrae yn dechrau, a'r cysgodion wedyn yn cronni ar y gorwel, yn ddüwch yn agosáu o gyfeiriad Caernarfon.

Adar.

(Trowch y dudalen)

Pob math o adar – gwylanod a bronfreithod, piod a cholomennod ac adar mân. Cwmwl ohonyn nhw, yn ffoi tua’r de, eu hadenydd yn creu sŵn anadlu, yna sŵn sgwrsio, yna sŵn fel sŵn injan uwch ein pennau. Digon ohonyn nhw i guddio’r haul, a’n gwneud ni’n oer. Safodd David a Susan ar ganol eu lawnt, law yn llaw yn eu henaint, cysgodion yr ehediaid yn eu duo nhw. Codais fy mab i’m breichiau, er ei fod o’n rhy hen ac yn rhy fawr, a’i ddal o’n dynn, dynn. Syllodd Siôn i’r awyr, ar y siapiau tlws yn dianc.

(Y llynedd, wrth ddarllen yr Hen Destament eto ar ryw ddiwrnod glawog, hyll, cododd Siôn ei ben a gofyn, ‘Deryn ydi colomen, yn de? Colomen arch Noa?’

‘Ia.’

A dyma hen gysgod yn croesi ei

(Trowch y dudalen)

wyneb, a gwneud iddo edrych fel hogyn bach eto. ‘Dwi’n cofio’r holl adar yna, ers talwm, yn gadael.’)

Pasiodd y cwmwl o adar, a diflannu ar y gorwel tua’r de. Roedd eiliad o dawelwch wedyn, a dyna pryd y digwyddodd o.

Cryndod a rhuo. Taran fwya’r byd. Rhywbeth blin yn llenwi’r byd, rhywbeth yn sgrechian, rhywbeth yn marw. Dwi’n meddwl mai dim ond rhyw funud wnaeth o bara, ond efallai ei fod o wedi bod yn hirach, neu’n fyrrach. Pylu’n araf wnaeth o, tawelu bob yn dipyn. Ac er bod y sŵn wedi dod o bob man, wedi llenwi’r aer a’r ddaear a’n hesgyrn, gwyddai’r pedwar ohonon ni o ba gyfeiriad y daeth y twrw – i fan’no roedd y pedwar ohonon ni’n syllu.

Môn.

(Trowch y dudalen)

Y cwmwl wedyn yn codi yn y pellter, fel tywydd garw’n agosáu. A Susan yn galw arna i dros yr ardd. ‘Get in the house! Now!’ Wrth i mi redeg am y tŷ, Siôn yn gwingo yn fy mreichiau wrth i mi ei ddal o’n rhy dynn, clywais David yn gofyn i’w wraig, ‘What? What is it?’

A llais Susan, yn feddal fel awel.

‘Wylfa.’

DIWEDD Y PAPUR